# Cynllun Pensiwn Dur Prydain

## Cynllun Pensiwn Dur Prydain

1. Ym Mai 2016, lansiodd y Llywodraeth ymgynghoriad i edrych i mewn i'r hyn y gellid ei wneud i helpu Cynllun Pensiwn Dur Prydain (BSPS) yng nghyd-destun ehangach ei hymdrechion i warchod diwydiant dur y DU.
2. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros bedair wythnos a chawsom dros 5,000 o atebion, wedi'i wneud i fyny o 4,509 o ymatebwyr unigol (gan ystyried ymatebion dyblyg). Parhawyd i gyflwyno ymatebion a sylwadau pellach drwy gydol 2016 a 2017.
3. Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar bedwar opsiwn:
   - **Opsiwn un**: defnyddio mecanweithiau rheoleiddio presennol i wahanu BSPS o'r cyflogwyr noddedig (Tata Steel UK Limited a chwmniau cysylltiedig);
   - **Opsiwn dau**: talu dyledion pensiwn - mae'r cyflogwr noddedig presennol yn 'prynu allan' o'r cynllun;
   - **Opsiwn tri**: lleihau rhwymedigaethau'r cynllun trwy ddeddfwriaeth newydd a fyddai'n caniatáu i'r ymddiriedolwyr leihau'r mynegeio ac ailbrisio ar dalu hawliau pensiwn cronedig yn y dyfodol.
   - **Opsiwn pedwar:** deddfu i ganiatáu trosglwyddiad swmp heb ganiatâd aelodau i gynllun newydd a fyddai'n cynnig mynegeio ac ailbrisio is ond yn talu buddion sy'n gyfwerth â neu'n fwy na'r iawndal a delir gan y Gronfa Diogelu Pensiwn (PPF).

### *Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad*

4. Roedd llawer o ymatebwyr o blaid newidiadau deddfwriaethol a fyddai'n caniatáu i'r cynllun leihau ei rwymedigaethau trwy leihau lefel mynegeio ac ailbrisio ar bensiynau cronedig. Yn benodol, roedd mwyafrif o aelodau'r BSPS a ymatebodd o blaid yr opsiwn hwn, sef yr opsiwn a ffafrir gan yr ymddiriedolwr hefyd. Nododd nifer fawr yn benodol eu bod yn ei ystyried yn well na'r dewis arall o'r cynllun yn dod i mewn i'r PPF.
5. Roedd ymatebwyr o'r diwydiant pensiynau, fodd bynnag, yn fwy gofalus am unrhyw newid deddfwriaethol, gan ddadlau y byddai caniatáu i un cynllun unigol wneud newidiadau yn y modd hwn yn annheg, a'i bod yn debygol o osod cynsail ar gyfer cynlluniau eraill i wthio am newidiadau tebyg. Roedd nifer fawr o aelodau unigol a sefydliadau oedd yn eu cynrychioli hefyd yn gwrthwynebu unrhyw newid deddfwriaethol a fyddai'n ei gwneud yn haws i gynlluniau neu eu cyflogwyr noddedig leihau lefelau buddion. Mynegodd un grŵp ymgyrchu mawr bryderon eang y byddai gwneud newidiadau i'r BSPS yn gosod cynsail sy'n peri pryder y byddai cynlluniau DB eraill yn dilyn. Roedd y pryderon hyn hefyd yn berthnasol i opsiwn pedwar a fyddai wedi gadael trosglwyddiadau swmp i gynllun newydd a oedd yn darparu ailbrisio a mynegeio is heb yr angen i gael caniatâd yr aelodau.
6. Yn ystod cyfnod ymgynghori'r Papur Gwyrdd, parhaodd BSPS a Tata Steel UK Limited i fod yn fater cyfredol. Nododd nifer fechan o ymatebwyr Tata Steel UK Limited fel enghraifft wrth fynegi pryder am gyflogwyr yn osgoi eu cyfrifoldebau i aelodau a holi a oedd y system gyfredol yn darparu lefel briodol o ddiogelwch i aelodau.

### *Y canlyniad i'r BSPS a Tata Steel UK*

7. Gweithredodd y Rheoleiddiwr Pensiynau, y Cynllun Diogelu Pensiwn (PPF), ymddiriedolwyr y BSPS a Tata Steel UK Limited a Tata Steel Limited drwy 2016 a 2017 i sicrhau canlyniad gorau posibl i'r BSPS o ystyried yr amgylchiadau anodd, gan ddefnyddio'r ddeddfwriaeth bresennol.

8. Ar 11 Medi 2017, cadarnhaodd y TPR ei gymeradwyaeth o'r Trefniant Dosrannu Rheoledig (RAA). Fel rhan o hyn, talodd Tata Steel UK Limited £550m i'r ymddiriedolwr a throsglwyddodd draean o'i ecwiti i'r BSPS.

9. Cymeradwywyd yr RAA gan y Rheoleiddiwr Pensiynau a ni wrthwynebwyd gan y PPF, o dan reolau presennol, oherwydd mai'r dewis arall fyddai ansolfedd anochel Tata Steel UK Limited a'r cyflogwyr eraill gan arwain at ganlyniad gwaeth i'r cynllun pensiwn.

10. Mae Cynllun Pensiwn Dur Prydain (BSPS2) newydd bellach wedi'i sefydlu. Fe'i noddir gan Tata Steel UK Limited.

11. Nid yw'r trosglwyddo i BSPS2 wedi bod yn awtomatig. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, roedd gan aelodau'r cynllun ddewis o aros yn BSPS, neu drosglwyddo i BSPS2. Gelwir yr ymarfer hwn yn 'Amser i Ddewis'. Bydd aelodau na wnaeth ddewis symud i BSPS2 yn aros yn BSPS. Bydd BSPS yn mynd i mewn i gyfnod asesu PPF ar ddiwedd mis Mawrth 2018 a bydd yr aelodau yn derbyn iawndal PPF.

12. Mae yna amrhyw o wahaniaethau rhwng y buddion a ddarperir yn BSPS2 a'r PPF. Mae'r sefyllfa hon yn fwyaf cymhleth i'r rhai nad ydynt eto wedi dechrau cael eu pensiynau - er enghraifft, os byddant yn dewis y PPF, bydd angen iddynt bwyso a mesur gostyngiad yn eu pensiwn cychwynnol yn erbyn opsiynau ymddeoliad cynnar a lwmp swm o arian mwy hael. Bydd pa opsiwn sy'n fwy buddiol yn ariannol yn dibynnu ar rhagolygon personol yr aelod a'u dewis mewn ymddeoliad.

### *Trosglwyddiad swmp o aelodau BSPS*

13. Rydym yn cydnabod roedd aelodau'r BSPS yn wynebu dewisiadau oedd weithiau'n anodd ynghylch trosglwyddo i BSPS2, aros yn BSPS, neu trosglwyddo eu buddion allan o'r BSPS yn llwyr ac i mewn i drefniant pensiynau arall (hawl sydd gan aeloau sydd heb ymddeol beth bynnag ac nid yn benodol i'r broses 'Amser i Ddewis'. Gofynnwyd i'r Llywodraeth gan yr ymddiriedolwyr ac eraill i gymhwyso opsiwn pedwar (trosglwyddiad swmp o aelodau i BSPS2, heb ganiatâd, lle byddai o fudd iddynt wneud hynny).

14. Hefyd, dywedodd y Pwyllgor Dethol Gwaith a Phensiynau, yn ei chweched adroddiad o'r sesiwn bresennol (Cynllun Pensiwn Dur Prydain) ym mharagraff 30 – '*Rydym yn argymell, yn ei Bapur Gwyn sydd ar y gweill ar gynlluniau pensiwn Buddion Wedi'u Diffinio, bod y Llywodraeth yn cyflwyno cynigion ar gyfer system o ganiatâd tybiedig. Dylai hyn alluogi trosglwyddiadau swmp o aelodau o gynllun DB yn benodol i fynd i'r PPF i mewn i gynllun arall sy'n darparu buddion llawer gwell na'r PPF i'r aelodau hynny. Dylid ei ddefnyddio ar gyfer achosion yn y dyfodol sy'n debyg i'r BSPS.*'

15. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried hyn yn ofalus iawn trwy gydol y cyfnod ers yr ymgynghoriad yn 2016. Rydym yn derbyn, ar gyfer rhai aelodau, y gall y system gyfredol arwain at ganlyniadau llai ffafriol i rai aelodau. Fodd bynnag, y dewis arall yw gosod ymddiriedolwyr yn y sefyllfa o benderfynu yn union pwy ddylai symud a chymhwyso'r pŵer i'w trosglwyddo heb ganiatâd. Er y byddai eithrio allan o'r symudiad yn rhoi rhywfaint o liniaru i aelodau unigol, credwn fod darparu pŵer mor eang mewn achosion yn y dyfodol yn annymunol oherwydd:

- mae dewisiadau aelodau'n rhan allweddol o ddiogelwch pensiynau. Ni fyddai'n briodol symud pobl i mewn i gynllun pensiwn newydd heb eu caniatâd penodol oni bai nad yw'r unigolion dan sylw yn amlwg yn waeth eu byd.

- nid yw bob amser yn bosibl sicrhau bod pwy fydd yn well eu byd yn y cynllun pensiwn newydd. Bydd y canlyniadau'n dibynnu ar amgylchiadau personol ac ar gynlluniau aelodau ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, yn achos BSPS gallai rhywun sy'n bwriadu cymryd eu pensiwn yn gynnar fod yn well eu byd yn y PPF oherwydd gwahanol ffactorau cyfrifo a ddefnyddir gan PPF. Yn yr un modd, efallai y bydd rhai aelodau'n gallu sicrhau buddion gwell ar gyfer priod sy'n goroesi trwy symud i'r PPF;
- er i lawer o aelodau efallai ei bod yn bosib cyfrifo'n rhifyddol pwy fyddai'n well eu byd mewn cynllun newydd yn hytrach na'r PPF, nid dyma'r unig ystyriaeth yn y broses o aelodau'n gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, efallai y bydd aelodau wedi colli ymddiried yn noddwyr neu ymddiriedolwyr y cynllun ac efallai y byddant am wneud penderfyniadau ar y sail honno. Lle mae'r gwahaniaeth ariannol rhwng opsiynau yn fach, ac mae hyn yn wir am y mwyafrif helaeth o aelodau pensiynwyr yn y BSPS, efallai y bydd ffactorau emosiynol yn dod yn bwysicach i aelodau; ac,
- tra bod gennym hyder yn yr ymddiriedolwr a'r ymgynghorwyr sy'n rheoli BSPS, byddai'n rhaid i unrhyw newid a wnaed i ddeddfwriaeth i ganiatáu i aelodau'r cynllun pensiwn gael eu symud i gynllun newydd wneud cais i gynlluniau tebyg mewn amgylchiadau tebyg. Gallai mesurau a roddir ar waith ar gyfer BSPS gael eu camddefnyddio gan eraill, naill ai trwy ddamwain neu'n fwriadol, gyda chanlyniadau annerbyniol ehangach ar gyfer diogelwch y cynllun mae aelodau'n eu mwynhau.

16. Er nad ydym yn dilyn yr argymhelliad cydsynio tybiedig, credwn yn gryf bod gwersi i'w dysgu o bob agwedd o'r achos hwn. Byddwn yn ceisio deall yn well amgylchiadau a chymhellion aelodau a wnaeth ddewisiadau yn ystod yr ymarfer 'Amser i Ddewis'. Byddwn yn dibynnu ar fynediad i ddata a gedwir gan eraill ond byddwn yn gweithio gyda ymddiriedolwr y BSPS, y Rheoleiddiwr Pensiynau, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau i lywio penderfyniadau yn y dyfodol mewn unrhyw sefyllfaoedd yn y dyfodol sydd â nodweddion tebyg.

### *Casgliad*

17. Rydym o'r farn bod y cytundeb i wahanu'r BSPS o Tata Steel UK Limited a'i gyflogwyr eraill trwy RAA, gyda chytundeb Tata Steel UK Limited i noddi'r cynllun newydd ac felly yn cynnig i aelodau'r opsiwn i drosglwyddo i gynllun Buddion Wedi'u Diffinio newydd yn ganlyniad cadarnhaol iawn o ystyried yr amgylchiadau anodd.
18. Roedd pryderon y byddai Tata Steel UK Limited yn afresymol wrth osgoi ei rhwymedigaethau wedi profi'n ddi-sail gan fod y Rheoleiddiwr wedi gallu sicrhau canlyniad sy'n well i aelodau'r cynllun pensiwn nag os byddai hwy wedi dod yn fethdalwr, i gyd heb yr angen am newidiadau i ddeddfwriaeth pensiynau. O ganlyniad, mae'r Llywodraeth wedi dod i'r casgliad nad yw'n angenrheidiol nac yn briodol cyflwyno deddfwriaeth newydd naill ai i ganiatáu i'r ymddiriedolwr leihau rhwymedigaethau cynllun pensiwn trwy leihau cynnydd yn y dyfodol (opsiwn tri yn y papur ymgynghori), neu i ganiatáu trosglwyddo aelodau i gynllun newydd sy'n talu buddion is heb ganiatâd aelod unigol (opsiwn pedwar yn y papur ymgynghori).
19. Er y gellid dadlau bod Tata Steel UK Limited a'r BSPS yn achos eithriadol, gellir dysgu gwersi er budd cyflogwyr eraill, cynlluniau a'u haelodau.

---

Response to the British Steel Pension Scheme consultation
www.gov.uk/government/consultations/british-steel-pension-scheme

Department for Work and Pensions
March 2018